

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

**Aseiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y  
Cymoedd**

**Aseiad Llesiant Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili**

CHWEFROR 2022

Cynnwys

<b>1</b>	<b>Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Disgrifiad o Orllewin Canol y Cymoedd</b> .....	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Ynghylch Gorllewin Canol y Cymoedd</b> .....	<b>5</b>
<b>4</b>	<b>Llesiant cymdeithasol</b> .....	<b>6</b>
4.1	Am y gymuned .....	6
4.2	Mynd o gwmpas .....	7
4.3	Mynediad at wasanaethau .....	9
4.4	Trosedd a diogelwch cymunedol .....	10
4.5	Amddifadedd .....	10
4.6	Iechyd .....	13
4.7	Tai ac aelwydydd .....	14
<b>5</b>	<b>Llesiant economaidd</b> .....	<b>16</b>
5.1	Addysg .....	16
5.2	Gwaith a sgiliau .....	16
<b>6</b>	<b>Llesiant amgylcheddol</b> .....	<b>18</b>
<b>7</b>	<b>Llesiant diwylliannol</b> .....	<b>20</b>
<b>8</b>	<b>Yr hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthym</b> .....	<b>23</b>
	<b>Cyfeiriadau</b> .....	<b>24</b>

### 1 Crynodeb gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r asedau a'r heriau allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn ar gyfer Gorllewin Canol y Cymoedd.

#### *Asedau*

Mae'r ardal gymunedol yn elwa o reilffordd uniongyrchol sy'n rhedeg o Rymni i Gaerdydd ac ymlaen i Benarth. Mae pedwar trên yr awr rhwng Bargod a Chaerdydd, ac mae yna hefyd 'fws sy'n cwrdd â'r trên' sy'n teithio o Ystrad Mynach i'r Coed Duon. Mae gwasanaethau bws rheolaidd o Ystrad Mynach i Nelson, Coed Duon a Chaerffili, yn ogystal â gwasanaethau lleol o amgylch cymunedau llai.

Mae gan Ystrad Mynach amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys dwy gangen banc, dwy archfarchnad genedlaethol a sawl siop annibynnol. Dyma galon weinyddol y Fwrdeistref Sirol hefyd ac mae'n cynnwys prif bencadlys y Cyngor, Ysbyty Ystrad Fawr, y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon a champws Ystrad Mynach Coleg y Cymoedd.

At ei gilydd, mae gan yr ardal gymunedol lefelau cymharol isel o amddifadedd, er bod Hengoed 2 yn y categori mwyaf difreintiedig ar draws parthau amddifadedd lluosog, ac mae Sant Catwg 1 a Sant Catwg 5 yn yr ail categori mwyaf difreintiedig.

Bu datblygiadau gan adeiladwyr tai niferus yn yr ardal gymunedol yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf ar un safle, ac mae galw yn y farchnad am ddatblygiadau newydd.

Mae Parc Penallta yn cwmpasu un o'r cerfluniau pridd ffigurol mwyaf yng Nghymru ac yn denu trigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr o ymhellach i ffwrdd.

Mae Maenordy Llancaeath Fawr, sy'n adeilad rhestredig Gradd I, yn un o'r tai bonedd pwysicaf sydd wedi goroesi o'r 16<sup>eg</sup> a'r 17<sup>eg</sup> ganrif, ac mae bellach yn amgueddfa hanes byw sy'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r DU.

Dywedodd preswylwyr wrthym eu bod wir yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol mewn cymunedau lleol, a'u bod hefyd yn mwynhau bod yn agos at fannau gwyrdd eang, agored a hardd.

#### *Heriau*

Oherwydd topograffeg ardal canol y cymoedd, mae'n anodd iawn teithio o ddwyrain i orllewin y Fwrdeistref Sirol ar gludiant cyhoeddus, gan roi trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd hyn dan anfantais o ran cael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau.

Roedd gan y mwyafrif o ardaloedd bach o fewn yr ardal gymunedol gyfraddau difrod troseddol a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae bwlch sylweddol mewn disgwyliad oes iach rhwng y wardiau gorau a gwaethaf yn yr ardal gymunedol ar gyfer dynion a menywod. Mae cyfradd marwolaethau pob achos a chyfradd marwolaethau cynamserol yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru mewn rhai ardaloedd bach (yn enwedig Hengoed a Maes-y-cwmwr).

Mae rhywfaint o amrywiad yn y gymhareb prisiau tai i incwm o fewn yr ardal gymunedol, gyda ward Maes-y-cwmwr â'r gymhareb uchaf.

Roedd gwahaniaeth barn ymhlith trigolion o ran a oeddent yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau lleol. Dywedwyd wrthym hefyd fod mynediad at gyfleusterau gofal iechyd yn broblem benodol a bod cludiant cyhoeddus yn annigonol gyda'r nos. Roeddent am gael mwy o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol, yn enwedig i bobl ifanc, ac roeddent yn teimlo bod lle i annog gwirfoddolwyr i gymryd rhan fwy gweithredol mewn cymunedau lleol.

## 2 Disgrifiad o Orllewin Canol y Cymoedd

Mae ardal gymunedol Gorllewin Canol y Cymoedd (GCyC) yn cynnwys wardiau **Hengoed, Maes-y-cwmwr, Nelson, Sant Catwg ac Ystrad Mynach**. Lleolir yr ardal o amgylch canol Cwm Rhymni, ac mae'n cynnwys prif dref Ystrad Mynach, a gefnogir gan ganolfan leol Nelson a nifer o bentrefi mawr, y mae gan bob un ohonynt gysylltiadau cryf â'r hen ddiwydiant glo.

Mae'r cynnig manwerthu yn **Ystrad Mynach** yn cynnwys dewis bach o siopau annibynnol, a dwy archfarchnad genedlaethol fawr (Tesco a Lidl). Mae'r dref yn gartref i nifer o swyddfeydd y Cyngor, yn ogystal â champws Ystrad Mynach Coleg y Cymoedd, coleg addysg bellach a sefydlwyd yn 1959 i ddarparu hyfforddiant i lowyr lleol, a unodd â Choleg Morgannwg cyfagos i ffurfio Coleg y Cymoedd yn 2013. Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon wedi'i lleoli i'r de o ganol y dref, gyferbyn ag Ysbyty Ystrad Fawr (Ysbyty Cyffredinol Lleol) a Gorsaf yr Heddlu.

Glofa Penallta gerllaw oedd y pwll glo olaf i gau yn y cwm. Adeiladau ac adeileddau nodedig eraill yw gorsaf reilffordd Ystrad Mynach, a agorwyd yn 1890, traphont Hengoed i Faesycwmer, a cherflun i goffau treftadaeth ddiwydiannol yr ardal ym Maes-y-cwmwr.



Mae gan **Nelson** hefyd archfarchnad genedlaethol ar ei chyrion, yn ogystal â nifer fach o siopau annibynnol yn y ganolfan leol ei hun.

Mae'r ardal gymunedol yn cynnwys Parc Gwledig Parc Penallta, Comin Gelli-gaer, a Pharc Coetir y Wern, sy'n amddiffyn ac yn darparu mynediad i dirwedd yr ardaloedd cymunedol. Mae'r ardal gymunedol hefyd yn lleoliad **Maenordy Llancaeach Fawr** sy'n dyddio'n ôl i'r 17eg Ganrif ac yn cynnal digwyddiadau diwylliannol ac yn cyfoethogi hanes a threftadaeth yr ardal.

*Ffigur 1: Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon, Ystrad Mynach*

*Ffigur 2: Maenordy Llancaeach Fawr, Nelson*

### 3 Ynghylch Gorllewin Canol y Cymoedd

<b>Ardal</b>	38.9 km <sup>2</sup> – tua 14% o gyfanswm arwynebedd Bwrdeistref Sirol Caerffili sef 278km <sup>2</sup>												
<b>Poblogaeth</b> 	Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 26,135 – tua 14.4% o gyfanswm y boblogaeth Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef 181,731 <sup>1</sup> .												
<b>Dwysedd poblogaeth</b>	Dwysedd y boblogaeth yw 6.72 o bobl yr hectar, ac ACEHI Ystrad Mynach 1, Maes-y-cwmwr a Hengoed 3 sydd â'r poblogaethau uchaf. Mae 6.53 o bobl yr hectar ym Mwrdeistref Sirol Caerffili <sup>2</sup> .												
<b>Anheddau</b> 	Y cyfrif anheddau yw 11,316 – tua 14.1% o gyfanswm nifer yr anheddau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 80,149 <sup>3</sup> .												
<b>Cyffredinol</b>	<p>Mae Gorllewin Canol y Cymoedd yn cynnwys 3 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (ACEHG), sy'n cynnwys 15 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Wrth edrych ar ardaloedd daearyddol llai, gallwn weld unrhyw wahaniaethau a all effeithio ar lesiant.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>ACEHI</th> <th>ACEHG</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Hengoed 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 008</td> </tr> <tr> <td>Maes-y-cwmwr</td> <td>Caerffili 012</td> </tr> <tr> <td>Nelson 1, 2 a 3</td> <td>Caerffili 013</td> </tr> <tr> <td>Sant Catwg 1, 2, 3, 4 a 5</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Ystrad Mynach 1, 2 a 3</td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	ACEHI	ACEHG	Hengoed 1, 2 a 3	Caerffili 008	Maes-y-cwmwr	Caerffili 012	Nelson 1, 2 a 3	Caerffili 013	Sant Catwg 1, 2, 3, 4 a 5		Ystrad Mynach 1, 2 a 3	
ACEHI	ACEHG												
Hengoed 1, 2 a 3	Caerffili 008												
Maes-y-cwmwr	Caerffili 012												
Nelson 1, 2 a 3	Caerffili 013												
Sant Catwg 1, 2, 3, 4 a 5													
Ystrad Mynach 1, 2 a 3													

**Allwedd:**

Linell Las – ffin ACEHI

Linell Goch – ffin ACEHG

Ffigur 3: Map o Orllewin Canol y Cymoedd

## 4 Llesiant cymdeithasol

### 4.1 Ynghylch y gymuned

Yn gyffredinol, cynyddodd poblogaeth amcangyfrifedig Gorllewin Canol y Cymoedd (GCyC) o tua 838 o drigolion, o 25,297 yng Nghyfrifiad 2011 i 26,135 yn 2020<sup>4</sup>(+3.3%), o gymharu â chynnydd o 3.5% yng Nghymru gyfan. Gwelodd chwech o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gynnydd yn eu poblogaeth dros y cyfnod hwn, gyda'r cynnydd mwyaf yn Ystrad Mynach 1 (cynnydd o 33.2% neu 733 o bobl). Gwelodd y naw ACEHI arall ostyngiad yn eu poblogaeth dros y cyfnod amser, gyda'r gostyngiad mwyaf yn Nelson 2 (gostyngiad o 6.8% neu 109 o bobl). Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd llesiant allweddol.

Yn anffodus, nid yw rhagamcanion poblogaeth ar gael islaw lefel y Fwrdeistref Sirol, felly mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys isod.

Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2.0% rhwng 2019 a 2043<sup>5</sup> i 186,991. Mae hyn mewn cyferbyniad â thueddiadau diweddar, lle cynyddodd y boblogaeth 5.4% rhwng cyfrifiad 1991 a chyfrifiad 2011.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 0-15 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gostwng 7.4% rhwng 2019 a 2043, sy'n debyg yn fras i gyfartaledd Cymru o 8.0%<sup>6</sup>. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mwyaf hyd at 2028 ac yn dilyn hynny rhagwelir y bydd y ffigur yn aros yn weddol gyson, sef tua 31,000. Gallai hyn olygu 2,521 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 16-64 oed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng 3.1% rhwng 2019 a 2043 (o'i gymharu â gostyngiad o 2.1% yng Nghymru gyfan), gyda gostyngiad eithaf cyson yn cael ei ragamcanu dros y cyfnod amser. Gallai hyn olygu 3,487 yn llai o bobl yn yr ystod oedran yma ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2043<sup>7</sup>.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 27.2% rhwng 2019 a 2043, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 28.7%<sup>8</sup>. Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gallai hyn olygu 9,653 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043<sup>9</sup>. Mae'r ffigur hwn 61% yn uwch na'r gostyngiad rhagamcanol cyfunol yn ffigurau'r boblogaeth ar gyfer y grwpiau oedran 0-15 a 16-64 erbyn 2043<sup>10</sup>.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed neu hŷn sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 82.6% rhwng 2019 a 2043, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 69.5%. Ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gallai hyn olygu 3,145 o bobl ychwanegol yn yr ystod oedran yma erbyn 2043<sup>11</sup>.

Yn sicr, mae llawer o fanteision posibl i lesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sgil pobl sy'n byw'n hirach.

Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y gallai fod galw uwch am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn y dyfodol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth oedranus, wrth i'r duedd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynyddu wrth i ni fynd yn hŷn.

Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd angen tai priodol sy'n diwallu eu hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol.

Nid yw'r data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 ar gael, ond yng Nghyfrifiad 2011:

<b>Cymry Cymraeg</b>	Roedd 23.7% o drigolion GCyC yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg o leiaf, ychydig yn uwch na chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili o 22.2%, ond yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 37.8% <sup>12</sup> .
----------------------	--

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

<b>Gwlad geni</b>	Ganwyd 89.2% o drigolion GCyC yng Nghymru, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 88.6% ond yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 72.7% <sup>13</sup> .
<b>Ethnigrwydd</b>	Roedd 98.4% o drigolion GCyC o ethnigrwydd Gwyn, bron yn union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 98.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.6% <sup>14</sup> .
<b>Crefydd</b>	Roedd gan 52.9% o drigolion GCyC yn nodi Cristnogaeth fel eu crefydd, ychydig yn yn uwch na chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 50.7% ond yn is na chyfartaledd Cymru o 57.5% <sup>15</sup> .

Bydd cymryd camau i helpu i gefnogi a thyfu'r Gymraeg yn helpu i warchod diwylliant a hunaniaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### 4.2 Mynd o gwmpas



Mae pobl yn teithio am amrywiaeth o resymau o fewn Gorllewin Canol y Cymoedd a thu hwnt; ar gyfer hamdden neu i gwrdd â ffrindiau a theulu, i fynychu addysg neu waith, i symud nwyddau neu ddarparu gwasanaethau, neu i gael mynediad at wasanaethau eu hunain. Mae yna deithwyr i'r ardal hefyd, fel y rhai sy'n gweithio yn yr ystadau diwydiannol neu'r siopau a'r swyddfeydd, a'r rhai sy'n ymweld at ddibenion twristiaeth neu'n mwynhau'r cefn gwlad hyfryd.

Mae **rheilffordd Cwm Rhymni yn** darparu cysylltiadau uniongyrchol i'r de drwy'r Fwrdeistref Sirol o Rymni i Gaerdydd, gyda gorsafoedd yng Ngorllewin Canol y Cymoedd wedi'u lleoli yn Hengoed ac Ystrad Mynach. O Ystrad Mynach yr amser teithio i Gaerdydd yw tua 30 munud, gyda phedwar trê bob awr. Mae yna ddyheadau i ailagor rheilffordd Cwmbargod i wasanaethau teithwyr, a allai gynnwys gorsaf newydd yn Nelson a darparu mwy o fynediad i'r gogledd i Ferthyr Tudful.

Mae **Metro De Cymru** yn rhwydwaith cludiant cyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), gan drawsnewid gwasanaethau trê a bws yn ogystal â beicio a cherdded. Mae Trafnidiaeth Cymru yn buddsoddi £750 miliwn i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert, a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd. I gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y Metro, ewch i wefan Trafnidiaeth Cymru [Metro De Cymru | Trafnidiaeth Cymru \(trc.cymru\)](https://trc.cymru).

Rail Linc 901 yw'r gwasanaeth pwrpasol, cyflym a chyfleus sy'n cysylltu gorsaf Ystrad Mynach â Choed Duon, Pontllan-fraith a Maes-y-cwmwr. Mae gwasanaethau bws rheolaidd yn rhedeg rhwng Ystrad Mynach a Nelson ac ymlaen i Bontypridd; o Ystrad Mynach tua'r de i Gaerffili; ac o Ystrad Mynach i'r Coed Duon. Yn ogystal, mae nifer o lwybrau bysiau sy'n gweithredu'n rheolaidd o amgylch y pentrefi llai yng Ngorllewin Canol y Cymoedd.

Un o'r prif faterion cludiant cyhoeddus yn yr ardal gymunedol hon yw ei bod yn anodd iawn teithio o ddwyrain i orllewin y Fwrdeistref Sirol, a byddai angen i unigolion gymryd nifer o fysiau i wneud y siwrne yma.

Gall trafndiaeth a'i hygyrchedd gael effaith sylweddol ar aelwydydd ag incwm isel neu gyfyngedig, a gall prisiau uchel wneud cludiant cyhoeddus yn opsiwn drud i'r rhai sy'n dibynnu arno. Gall lleihau costau cludiant helpu i gynyddu incwm gwario a helpu i leihau tlodi mewn gwaith.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

Mae nifer fechan o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus yng Ngorllewin Canol y Cymoedd, yn Rhos Dinefwr yn Nelson a maes parcio Stryd Oakfield yn Ystrad Mynach<sup>16</sup>. Mae'r stoc dai yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn gymysgedd o dai ar wahân, tai pâr a thai teras ac nid oes gan lawer ohonynt ddreifiau na pharcio oddi ar y stryd ar gael, felly gallai gyfyngu ar y nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan yn y dyfodol oherwydd gallai gwefru fod yn broblem. Gobeithio y bydd datblygiadau yn y dyfodol mewn cyfleusterau gwefru trydan yn helpu i ddatrys y mater hwn.

Gall cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus wneud cyfraniad pwysig at anghenion cludiant leol, tra hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir.

Gall llwybrau teithio llesol diogel, yn enwedig y rhai sy'n darparu potensial cymudo, helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn y dyfodol efallai y bydd mwy o bobl yn dewis teithio'n llesol, fel y gallant gadw'n iachach yn eu henaint. Efallai y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn defnyddio beiciau trydan i deithio ar hyd ffyrdd serth yr ardal.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer ohonom yn **cerdded ac yn beicio mwy** ac yn gwerthfawrogi gwerth ein manau gwyrdd lleol.

Mae **Llwybr 47 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol** yn rhedeg o Draphont Hengoed trwy Nelson a Threlewis i ganolfan ddringo Taf Bargod. Am lawer o'i hyd mae'r llwybr yn rhedeg yn gyfochrog â rheilffordd bresennol ar lwybr beicio a adeiladwyd yn arbennig. Mae ardaloedd mawr o dir wedi'i dirlunio, wedi'i adfywio o hen weithfeydd diwydiannol. I'r cyfeiriad arall, mae Llwybr 47 yn mynd trwy Faesycwmer ac i lawr Cwm Sirhywi trwy Ynysddu a Rhisga cyn mynd allan o'r Fwrdeistref Sirol tuag at Gasnewydd.

Mae pandemig Covid-19 wedi gweld llawer mwy ohonom yn gweithio gartref ac yn cyrchu gwasanaethau ar-lein, ond mae rhai mathau o waith na ellir eu gwneud o bell nac yn ddigidol, megis gwaith ffatri neu

fanwerthu. Efallai na fydd angen i genedlaethau'r dyfodol deithio cymaint i'r gwaith.

### Mynediad band eang



Mae gan y mwyafrif helaeth o gartrefi yng Ngorllewin Canol y Cymoedd fynediad at fand eang o 30Mb/s o leiaf, er bod ambell fan lle mae mynediad yn waeth, megis Maes-y-cwmwr (6.4%) ac Ystrad Mynach (6.6%), er nid oes gan 39.8% o gartrefi yn Sant Catwg 5 fynediad i fand eang o'r cyflymder hwn<sup>17</sup>.

Er bod hygyrchedd band eang yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn dda ar y cyfan, mae fforddiadwyedd band eang yn llawer mwy o broblem i'r rheini sydd ar incwm isel neu gyfyngedig. Gall llythrennedd digidol gwael hefyd fod yn rhwystr sylweddol i rai grwpiau o fewn y gymuned.

Efallai y bydd cymunedau'r dyfodol yn llai dibynnol ar systemau telathrebu sefydlog a gallai mwy o bobl ddefnyddio technolegau mwy newydd fel 5G ac ati.

Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gweithio gartref a mynediad ar-lein i wasanaethau yn drefniant parhaol am y dyfodol rhagweladwy, neu a fydd pobl yn dechrau dychwelyd i'w manau gwaith neu'n dewis cyrchu gwasanaethau wyneb yn wyneb. Mewn gwirionedd mae'n debygol y gwelir cyfuniad o ryngweithio ar-lein, o bell ac yn bersonol.

Yn y dyfodol bydd angen i Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfan (gan gynnwys Gorllewin Canol y Cymoedd) fod yn seibr-ddiogel ac yn ddigidol gynhwysol.



### 4.3 Mynediad i wasanaethau



**Ystrad Mynach** yw'r brif dref o fewn Gorllewin Canol y Cymoedd, a bydd trigolion yn teithio o ardaloedd cyfagos i'r dref i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae ganddi ddwy archfarchnad genedlaethol fawr (Tesco a Lidl), dwy gangen banc ac amrywiaeth o siopau cenedlaethol ac annibynnol llai.

Mae stadau diwydiannol yn Nyffryn a Phenallta sydd (ynghyd â safle datblygiad cymysg Tir-y-berth a Pharc Busnes Tredomen) yn darparu ystod o weithgareddau cyflogaeth lleol ar gyfer yr ardal. Mae'r ffaith bod swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi eu lleoli ym Mharc Busnes Tredomen ac Ysbyty Ystrad Fawr (Ysbyty Cyffredinol Lleol) a Chanolfan Rhagoriaeth Chwaraeon y Cyngor wedi arwain at Ystrad Mynach yn dod yn ganolfan cyflogaeth weinyddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

Mae **Nelson** yn ganolfan leol sydd ag archfarchnad fawr ar ei chyrion (Co-op) a nifer o siopau cenedlaethol ac annibynnol llai, ynghyd ag un gangen banc.

Ar draws Gorllewin Canol y Cymoedd ceir y gwasanaethau canlynol:

Math o ased	Nifer
Ysgol Gynradd	10
Ysgol Uwchradd	2
Ysgol Arbennig	1
Coleg AB	1
Llyfrgelloedd	2

Canolfannau hamdden	2
Canolfan gymunedol	9
Banciau	2
Swyddfa Bost	5
Parciau gwledig	2

Mae gan Orllewin Canol y Cymoedd hefyd nifer o ganghennau Swyddfa'r Post yn y pentrefi llai, sy'n cynnig mynediad amgen i wasanaethau bancio lle nad oes canghennau banc.

Mae gan ardal gymunedol Gorllewin Canol y Cymoedd wyth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, dwy ysgol gyfun (Ysgol Lewis Pengam ac Ysgol y Merched Lewis) a champws Ystrad Mynach Coleg y Cymoedd. Mae Ysgol Caeau'r Drindod hefyd wedi'i lleoli yn Ystrad Mynach ac mae'n darparu addysg a chyfleusterau arbenigol ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed sydd ag ystod eang o anawsterau dysgu.

Mae gan Orllewin Canol y Cymoedd Llyfrgell y Dref yn Ystrad Mynach a Llyfrgell Bentref yn Nelson.

Mae Canolfan Hamdden Sue Noakes wedi'i lleoli yn Ystrad Mynach ger Ysgol Gyfun Lewis i Ferched, ac er bod defnydd ysgol yn unig yn ystod y dydd, mae ar gael at ddefnydd cymunedol gyda'r nos. Mae ganddi neuadd chwaraeon fawr a stiwdio ffitrwydd fechan ynghyd â mynediad i gae aml-chwaraeon 2G Astro turf a 3 chae rygbi.

Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn cynnwys Cae Pêl-droed 3G 2-seren FIFA, Cae Rygbi 3G a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol (IRB) 22, 2 ystafell gynadledda, ystafell cryfder a chyflyru, ystafelloedd meddygol a chymorth cyntaf, ystafell gymunedol a 2 eisteddle. Gerllaw mae Parc Ystrad Mynach, sy'n cynnwys lawnt fowlio, cyrtiau tennis a dau gae rygbi.

#### 4.4 Trosedd a diogelwch cymunedol

Oni bai bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r awydd i gael mynediad at wasanaethau neu gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

Roedd gan 10 o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfraddau **Difrod Troseddol** uwch na chyfartaledd Cymru o 1.14 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan ddwy ACEHI (Ystrad Mynach 2 a Sant Catwg 5) gyfraddau dros ddwywaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Difrod Troseddol<sup>18</sup>.

Roedd gan wyth o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfradd **Troseddau Treisgar** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan dair ACEHI (Sant Catwg 5, Hengoed 2 a Sant Catwg 1) gyfraddau un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Troseddau Treisgar<sup>19</sup>.

Roedd gan bedair o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfradd troseddau **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** uwch na chyfartaledd Cymru o 2.55 o achosion fesul 100 o'r boblogaeth. Dim ond un ACEHI (Ystrad Mynach 2 – cyfradd 5.9) oedd â chyfradd a oedd yn fwy na dwywaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<sup>20</sup>.

Roedd gan wyth o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfradd **Byrgleriaeth** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.98 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Roedd gan Sant Catwg 5 (cyfradd 1.92) gyfradd Byrgleriaeth o bron ddwywaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Byrgleriaeth<sup>21</sup>.

Roedd gan bump o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfradd **Lladrata** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.53 achos fesul 100 o'r boblogaeth. Dim ond un ACEHI (Maes-y-cwmwr – cyfradd 0.85) oedd â chyfradd dwyn o dros un a hanner gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer Dwyn<sup>22</sup>.

Roedd gan chwech o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gyfradd **Achosion Tân** uwch na chyfartaledd Cymru o 0.38 achos fesul 100 o'r

boblogaeth. Mae gan ddwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (Ystrad Mynach 3 a Sant Catwg 1) gyfraddau dros ddwywaith cyfartaledd Cymru, ac roedd gan Sant Catwg 5 gyfradd o 2.21, sydd bron chwe gwaith yn fwy na chyfartaledd Cymru ar gyfer Achosion Tân<sup>23</sup>.

Bydd mynd i'r afael ag achosion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cefnogi mwy o gydlyniant yng nghymunedau Gorllewin Canol y Cymoedd.

#### 4.5 Amddifadedd

Mynegai **Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny (mewn ardal ddaearyddol ACEHI), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, ynghyd ag amddifadedd cyffredinol. Mae MALIC yn rhestru holl ACEHI Cymru o'r mwyaf (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909).

Mae safleoedd parth MALIC ar gael ar gyfer pob ACEHI yng Nghymru, ac mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r ACEHI sy'n perthyn i'r categorïau mwyaf difreintiedig yn Nwyrain Canol y Cymoedd, ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol a rhai parthau penodol.

<b>Amddifadedd cyffredinol</b>	Dim ond ACEHI Hengoed 2 (safle 123 yng Nghymru gyfan) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer Amddifadedd Cyffredinol yn GCyC. Mae Sant Catwg 1 (safle 280) a Sant Catwg 5 (safle 325) yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn GCyC.
<b>Parth lechyd</b>	Dim ond ACEHI Hengoed 2 (safle 27) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth lechyd yn GCyC. Mae tair ACEHI arall yn y categori 11-

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

	20% mwyaf difreintiedig yn GCyC – Sant Catwg 1 (safle 208), Sant Catwg 5 (safle 314) a Sant Catwg 2 (safle 368).
--	--

<b>Parth Diogelwch Cymunedol</b>	Mae dwy ACEHI yn y categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Diogelwch Cymunedol yn GCyC – Sant Catwg 5 (safle 136) ac Ystrad Mynach 2 (safle 155). Mae dwy ACEHI arall yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn GCyC – Ystrad Mynach 3 (safle 268) a Sant Catwg 1 (safle 284).
<b>Parth Incwm</b>	Dim ond ACEHI Hengoed 2 (safle 160) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Incwm yn GCyC. Dim ond ACEHI Sant Catwg 1 (safle 310) sydd yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn GCyC.
<b>Parth Cyflogaeth</b>	Dim ond ACEHI Hengoed 2 (safle 143) sydd yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y Parth Cyflogaeth yn GCyC. Dim ond ACEHI Sant Catwg 1 (safle 260) sydd yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig yn GCyC.

Mae tabl sy'n dangos y safleoedd parth ar gyfer pob ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd i'w weld ar dudalen 12. Mae hyn yn amlygu mai cymharol ychydig o fannau o amddifadedd sydd ledled Gorllewin Canol y Cymoedd, gyda dim ond Hengoed 2 yn y categori 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer amddifadedd cyffredinol ar draws nifer o'r parthau.

Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 - Gorllewin Canol y Cymoedd

Enw ACEHI	Amddifadedd Cyffredinol	Parth Incwm	Parth Cyflogaeth	Parth Iechyd	Parth Addysg	Parth Mynediad i Wasanaethau	Parth Tai	Parth Diogelwch Cymunedol	Parth Amgylchedd Ffisegol
Hengoed 1	619	687	722	435	416	970	813	591	730
Hengoed 2	123	160	143	27	162	877	772	389	1125
Hengoed 3	677	712	518	654	721	1397	431	505	786
Maes-y-cwmwr	1101	1041	1047	999	1040	635	1270	840	608
Nelson 1	1134	1108	889	1008	866	1534	816	666	997
Nelson 2	544	431	567	590	467	998	649	470	1200
Nelson 3	1390	1040	1108	964	1181	1731	1739	1405	865
Sant Catwg 1	280	310	260	208	272	1143	890	284	523
Sant Catwg 2	729	853	529	368	842	1177	945	1038	857
Sant Catwg 3	1008	954	674	757	1055	1156	1472	854	869
Sant Catwg 4	1565	1548	1477	1063	1225	1641	1760	998	604
Sant Catwg 5	325	384	454	314	219	721	731	136	521
Ystrad Mynach 1	1292	1120	1106	995	1033	1214	1174	1040	1046
Ystrad Mynach 2	659	822	678	753	1011	1725	286	155	63
Ystrad Mynach 3	1576	1809	1587	1459	1724	1054	1704	268	378

**Safle MALIC 1-1909**

1-191: 10% mwyaf difreintiedig

192-382: 11-20% mwyaf difreintiedig

383-573: 21-30% mwyaf difreintiedig

574-955: 31-50% mwyaf difreintiedig

956-1909: 50% lleiaf difreintiedig

#### 4.6 Iechyd

Mae iechyd da yn agwedd bwysig ar lesiant pob unigolyn ym mhob cymuned, ond mae rhai heriau yng Ngorllewin Canol y Cymoedd mewn perthynas â chyflogaeth, cludiant, tai, cyflawniad addysgol a lefelau amddifadedd sy'n debygol o gael effaith ar iechyd, ac o bosibl yn cyfrannu at neu gael ei achosi gan iechyd gwael.

Er bod iechyd hunangofnodedig yn dda ar y cyfan, mae cyfradd y marwolaethau cynamserol yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru ac mae gan 25.7% o'r bobl sy'n byw yng Ngorllewin Canol y Cymoedd salwch cyfyngus hirdymor.

<b>Salwch cyfyngus hirdymor</b>	Dywedodd 25.7% o drigolion GCyC fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd eu hiechyd. Mae'r ffigur hwn fwy neu lai yr un fath â chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Caerffili (25.4%), ond yn uwch na'r cyfartaledd (22.7%) ar gyfer Cymru gyfan <sup>24</sup> .
<b>Cyfradd marwolaethau pob achos</b>	Roedd y gyfradd marwolaethau o bob achos yn yr ACEHG yn GCyC dros y cyfnod 2017-19 rhwng 1093.6 fesul 100,000 o boblogaeth Caerffili 008 (Sant Catwg) a 1269.8 yng Nghaerffili 012 (Hengoed a Maes-y-cwmwr), o'i chymharu â Bwrdeistref Sirol Caerffili (1103.7). a chyfraddau cyfartalog Cymru (1031.2) <sup>25</sup> .
<b>Marwolaethau cynamserol</b>	Mae cyfradd y marwolaethau cynamserol (o dan 75) yn GCyC yn amrywio rhwng 376.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghaerffili 013 (Ystrad Mynach a Nelson) a 431.1 yng Nghaerffili 012 (Hengoed a Maes-y-cwmwr), sy'n sylweddol uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru (382.4) <sup>26</sup> .

<b>Cyflyrau cronig a gofnodwyd gan Feddyg Teulu</b>	Mae canran y trigolion a gofnodwyd â chyflwr cronig gan feddyg teulu yn GCyC yn amrywio o 14% yng Nghaerffili 013 (Ystrad Mynach a Nelson) i 16.7% yng Nghaerffili 008 (Sant Catwg). Mae'r ganran mewn dwy o'r tair ACEHG yn GCyC yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.3%.
<b>Cyflyrau iechyd meddwl a gofnodwyd gan Feddyg Teulu</b>	Mae canran y trigolion a gofnodwyd â chyflwr iechyd meddwl gan Feddyg Teulu yn GCyC yn amrywio o 20.9% yng Nghaerffili 013 (Ystrad Mynach a Nelson) i 25.8% yng Nghaerffili 012 (Hengoed a Maes-y-cwmwr). Unwaith eto, mae'r ganran mewn dwy o'r tair ACEHG yn GCyC yn uwch na chyfartaledd Cymru o 23.2%.

Gall disgwyliad oes a disgwyliad oes iach amrywio'n sylweddol hyd yn oed o fewn ardaloedd cymharol fach, yn enwedig lle mae cymysgedd o ardaloedd mwy difreintiedig a llai difreintiedig. O fewn Gorllewin Canol y Cymoedd, ar gyfer dynion adeg geni roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 53.9 mlynedd yn ward Hengoed i 61.0 mlynedd yn ward Maes-y-cwmwr, sef bwlch o 7.1 mlynedd. Roedd y ffigurau ar gyfer tair o'r pum ward (Hengoed, Nelson a Sant Catwg) yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer menywod, roedd disgwyliad oes iach yn amrywio o 54.3 mlynedd yn ward Hengoed i 62.6 mlynedd yn ward Ystrad Mynach, sef bwlch o 8.3 mlynedd. Ar gyfer dwy o'r pum ward (Hengoed a Sant Catwg) roedd y ffigurau'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru<sup>27</sup>.

Bydd mynd i'r afael â phrif achosion marwolaeth a salwch cynamserol, gohirio eiddilwch a helpu oedolion o oedran gweithio i fyw bywydau iachach am gyfnod hirach, drwy atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd a hybu llesiant meddwl, yn helpu i greu Gorllewin Canol y Cymoedd iachach.

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

Mae Ysbyty Ystrad Fawr (Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell) wedi'i leoli yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn Ystrad Mynach. Mae ganddi Uned Mân Anafiadau ac Uned Asesu Meddygol, ac mae'n darparu Llawfeddygaeth Ddydd, Gwasanaethau Adsefydlu a Therapi, Gwasanaethau Diagnostig, amrywiaeth eang o Glinigau Arbenigol Cleifion Allanol, Uned Henoed Bregus ar gyfer gofalu am bobl hŷn, 164 o welyau cleifion mewnol, Cleifion Allanol Plant. apwyntiadau, gwasanaethau Mamolaeth a Sgrinio Coluddion. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange wedi'i leoli yng Nghwmbân (o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) ac mae'n darparu Gwasanaethau Arbenigol, Trawma a Gofal Critigol ar gyfer Gwent gyfan.

Dyweddodd 25.1% o drigolion Gorllewin Canol y Cymoedd fod eu hiechyd yn weddol, yn wael neu'n wael iawn. Mae'r ffigur hwn bron union yr un fath â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 25.2%, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22.2%<sup>28</sup>.

### 4.7 Tai ac aelwydydd

Ystyriaeth allweddol ar gyfer dyfodol Gorllewin Canol y Cymoedd yw sicrhau bod y math iawn o dai ar gael i gefnogi anghenion y gymuned.

Os caiff tai'r dyfodol eu gwella o ran effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi'n gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon. Bydd angen i gartrefi'r dyfodol allu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid. Bydd y tai sy'n cael eu hadeiladu yn awr yn etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol.

<b>Stoc tai</b>	Mae 48.3% o eiddo yn GCyC yn dai pâr o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 39.2% a chyfartaledd Cymru o 31%. Roedd ychydig dros chwarter yr eiddo yn y categori tai teras, o'i gymharu â chyfartaledd y Fwrdeistref Sirol o 36.1% a chyfartaledd Cymru o 27.8%.
-----------------	--

<b>Band treth cyngor</b>	Mae 46.6% o dai yn GCyC wedi'u graddio fel band Treth y Cyngor A neu B (y categorïau tai â'r gwerth isaf) o'i gymharu â ffigur o 52.6% yn y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd.
<b>Daliadaeth</b>	Mae 73% o dai yn GCyC mewn perchnogaeth lwyr neu gyda morgais, o'i gymharu â ffigur o 69.3% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 67.4% yng Nghymru. Mae 14.9% yn cael ei rentu gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai, o'i gymharu â 18.7% yn y Fwrdeistref Sirol gyfan a 16.4% yng Nghymru.

Ym MALIC 2019, roedd gan saith o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (5.5%) o bobl yn byw ar aelwydydd gorlawn, gyda Hengoed 3 (8.1%) a Hengoed 2 (7.7%) â'r canrannau uchaf<sup>29</sup>.

Roedd gan dair o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (19.7%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael – y rhain oedd Ystrad Mynach 2 (26.3%), Nelson 1 (21.1%) ac Ystrad Mynach 1 (20.1%)<sup>30</sup>.

Roedd gan dair o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (18%) ar gyfer y tebygolrwydd o dai oedd yn cynnwys peryglon difrifol – sef Ystrad Mynach 2 (23.6%), Nelson 1 (19%) ac Ystrad Mynach 1 (18.5%)<sup>31</sup>.

Roedd gan bump o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) ar gyfer y tebygolrwydd y byddai tai mewn cyflwr gwael, a'r tair uchaf oedd Ystrad Mynach 2 (4.9%), Nelson 1 (3.8%) a Sand Catwg 2 (3.5%)<sup>32</sup>.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru** yn gyfres o safonau y mae'n rhaid i bob cartref Cyngor a Chymdeithas Tai yng Nghymru eu bodloni. Mae'r safon yn nodi y dylai pob cartref fod mewn cyflwr da, yn ddiogel, wedi'i wresogi'n ddigonol, yn gyfoes o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi, wedi'i reoli'n dda, mewn amgylcheddau deniadol a diogel ac yn addas ar gyfer aelwydydd penodol. Gan fod y Cyngor wedi cadw ei stoc tai, mae'n gyfrifol am godi'r stoc i'r safon hon.

Mae tua £260 miliwn wedi'i wario ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y blynyddoedd diwethaf i gyrraedd y safon hon. Mae gwaith mewnol wedi cynnwys ceginau, ystafelloedd ymolchi, gwresogi ac ailweirio trydanol newydd. Mae gwaith allanol wedi cynnwys drysau newydd, ffenestri, landeri/pibellau dŵr ac ail-doi eiddo. Mae rhaglen gwella amgylcheddol hefyd wedi'i chyflwyno fel rhan o SATC, sy'n edrych ar ardaloedd y tu allan i gwrtil tai cyngor.



Mae rhywfaint o amrywiad yn y cynnydd canolrifol mewn prisiau a dalwyd am dai mewn wardiau gwahanol yng Ngorllewin Canol y Cymoedd rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021. Yn ward Maes-y-cwmwr mae'r pris canolrifol wedi cynyddu 15.8% i £183,000, ac yn ward Sant Catwg cynyddodd y pris canolrifol 14.3% i £132,000. Mewn gwrthgyferbyniad, cynyddodd y pris canolrifol yn ward Hengoed 3% yn unig i £137,500<sup>33</sup>.

Yr incwm blynyddol cyfartalog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yw £29,289<sup>34</sup>, sy'n golygu bod y gymhareb pris tŷ i incwm dros 6:1 yn ward Maes-y-cwmwr, a 4.5:1 yn ward Sant Catwg (y ward â'r pris canolrifol isaf ym mis Mawrth 2021). Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i berson sengl wario dros 6 gwaith ei gyflog i allu prynu eiddo yn ward Maes-y-cwmwr, sy'n debygol o olygu bod llawer o bobl sengl yn cael eu hatal rhag prynu eiddo heb gymorth, megis cymorth gan y teulu neu berchnogaeth a rennir.

Mae diffinio'r angen am dai yn gymhleth a bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar lefelau cyffredinol y galw.

Bu datblygiad gan adeiladwyr tai mawr yn yr ardal hon yn y blynyddoedd diwethaf, gyda 900 o unedau yn cael eu hadeiladu ar safleoedd mawr (dros 10 annedd) dros y 15 mlynedd diwethaf, er bod hyn wedi bod yn bennaf ar un safle datblygu. Mae galw yn y farchnad am ddatblygiadau newydd yn y maes hwn.

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2018 yn dangos gofyniad ychwanegol ar gyfer datblygu tai cymdeithasol anghenion cyffredinol 1 ystafell wely, 2 ystafell wely, 3 gwely a 4 gwely a gofyniad bach ar gyfer perchentyaeth cost isel. Y gofyniad uchaf o ran tai cymdeithasol yw anghenion cyffredinol 1 ystafell wely.

### 5 Llesiant economaidd

#### 5.1 Addysg

Gall profiadau plentynod bennu datblygiad hirdymor a chyflawniadau bywyd cyffredinol.

Ar gyfer Gorllewin Canol y Cymoedd, mae parth Addysg MALIC 2019 yn dangos y canlynol:

<b>Parth Addysg</b>	Mae un ACEHI yn GCyC yn y 10% o'r categori mwyaf difreintiedig ar gyfer y parth Addysg – Hengoed 2 (safle 162 yng Nghymru). Yn ogystal, mae dwy ACEHI yn y categori 11-20% mwyaf difreintiedig – Sant Catwg 5 (safle 219) a Sant Catwg 1 (safle 272).
---------------------	---

Mae gan Hengoed 2 hefyd grynodiad uchel o nifer o wahanol barthau amddifadedd – amddifadedd cyffredinol ynghyd ag Incwm, Cyflogaeth, lechyd ac Addysg. Mae hyn yn dweud wrthym y gallai ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol fod yn cyfrannu at fylchau cyrhaeddiad addysgol rhwng unigolion a chymunedau.

Bydd sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd da a chodi dyheadau cenedlaethau o bobl ifanc yn y dyfodol yn cefnogi eu llesiant economaidd hirdymor.

Mae'r data'n dangos bod cyfran y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 sy'n mynd i Addysg Uwch yn amrywio rhwng 12.3% yn Sant Catwg 5 i 52.3% yn Ystrad Mynach 3. Mae hefyd yn dangos bod cyfran yr oedolion 25 i 64 oed heb unrhyw gymwysterau yn amrywio o 7% yn Ystrad Mynach 3 i 40.2% yn Hengoed 2<sup>35</sup>.

I rai pobl ifanc, gall eu hamgylchiadau ariannol a chost ac argaeledd cludiant fod yn rhwystrau mawr rhag mynd i addysg uwch.

Mae angen cefnogi ac annog cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o bobl ifanc i'w hatal rhag dod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

#### Absenoldeb mynych o'r ysgol

Mae absenoldeb mynych o ddisgyblion ysgol yn GCyC yn amrywio o 2.1% yn Ystrad Mynach 3 i 11.1% yn Sant Catwg 1<sup>36</sup>. (Mae'r dangosydd hwn yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd)

#### 5.2 Gwaith a sgiliau

Bydd gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i ddo o hyd i waith sy'n gweddu, sy'n werth chweil ac sy'n osgoi tlodi mewn gwaith.

#### Gweithgarwch economaidd / anweithgarwch



Roedd 18,556 o drigolion 16-74 oed yn GCyC ar adeg Cyfrifiad 2011. O'r rhain, roedd 12,045 yn economaidd weithgar:


- roedd 51.6% yn gyflogedig (49.5% yng Nghymru)
- Roedd 6.7% yn hunangyflogedig (8.6% yng Nghymru)
- Roedd 4.7% yn ddi-waith (4.3% yng Nghymru).

Roedd 6,511 o drigolion economaidd anweithgar yn GCyC:

- Roedd 15.9% wedi ymddeol (16.1% yng Nghymru)
- Roedd 4% yn gofalu am eu cartref neu deulu (3.8% yng Nghymru)




## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd 8.3% yn sâl neu'n anabl hirdymor (6.3% yng Nghymru)</li> </ul>																		
<p><b>Sgiliau</b></p> 	<p>Dangosir y lefel uchaf o gymwysterau ar gyfer trigolion GCyC yng Nghyfrifiad 2011 isod<sup>37</sup>.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>GCyC</th> <th>Cymru</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Dim cymwysterau</td> <td>29.5%</td> <td>25.9%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 1</td> <td>13.8%</td> <td>13.3%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 2</td> <td>16.4%</td> <td>15.7%</td> </tr> <tr> <td>Lefel 3+</td> <td>32.9%</td> <td>36.8%</td> </tr> <tr> <td>Prentisiaeth</td> <td>3.8%</td> <td>3.9%</td> </tr> </tbody> </table>		GCyC	Cymru	Dim cymwysterau	29.5%	25.9%	Lefel 1	13.8%	13.3%	Lefel 2	16.4%	15.7%	Lefel 3+	32.9%	36.8%	Prentisiaeth	3.8%	3.9%
	GCyC	Cymru																	
Dim cymwysterau	29.5%	25.9%																	
Lefel 1	13.8%	13.3%																	
Lefel 2	16.4%	15.7%																	
Lefel 3+	32.9%	36.8%																	
Prentisiaeth	3.8%	3.9%																	
<p><b>Diwydiant cyflogaeth</b></p>	<p>Yng Nghyfrifiad 2011 y diwydiant cyflogaeth mwyaf yn GCyC oedd Cyfanwerthu ac Adwerthu: Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur ar 14.5% (15.6% yng Nghymru). Dilynwyd hyn gan Gweithgynhyrchu ar 14.3% (10.5% yng Nghymru) a Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol ar 12.3% (14.5% yng Nghymru)<sup>38</sup>.</p>																		
<p><b>Prif safleoedd cyflogaeth</b></p>	<p>Mae ystadau diwydiannol yn Nyffryn (Ystrad Mynach) a Phenallta (Penybryn), sydd, ynghyd â safleoedd datblygu cymysg Tir-y-berth a Thŷ Du (Nelson) a Pharc Busnes Tredomen, yn darparu ystod o weithgareddau cyflogaeth lleol ar gyfer yr ardal.</p>																		

Mae'r pandemig Covid-19 yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar batrwm cyflogaeth yn lleol, gyda'r effeithiau mwyaf yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Twristiaeth ac (i raddau) Adeiladu.

Bydd yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus yn gallu cynnig amrywiaeth o swyddi o safon mewn gwahanol sectorau, ac mae'r economi sylfaenol hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig (yr economi sylfaenol sy'n darparu'r gwasanaethau bob dydd y mae ein trigolion a'n busnesau yn dibynnu arnynt, megis ynni, bwyd a gofal iechyd, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at wydnwch hirdymor yr economi leol). Bydd cael cyflogaeth o ansawdd da sy'n talu'n dda yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolyn.

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â naw ardal awdurdod lleol arall yn Ne-ddwyrain Cymru yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), sydd dros gyfnod o 10 mlynedd yn ceisio cyflawni set o dargedau yn y rhanbarth gan gynnwys 25,000 o swyddi newydd erbyn 2036, trosoledd o £4bn o fuddsoddiad gan y sector preifat a sicrhau twf economaidd. Mae wyth sector blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai pwysig i'r rhanbarth wrth symud ymlaen<sup>39</sup>:



Ffigur 4: Sectorau blaenoriaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd

Un o'r heriau allweddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan fydd sicrhau bod y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol yn cysylltu â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bo'n briodol, fel bod yr ardal yn elwa cymaint â phosibl ar y buddsoddiad a'r twf economaidd a fydd yn digwydd. digwydd yn y blynyddoedd i ddod.

## 6 Llesiant amgylcheddol



Ein haer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd sy'n darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, pren, tanwydd a hamdden. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau llai gweladwy gan gynnwys rheoli dŵr, cefnogi pryfed peillio a storio carbon.

Mae'r hen ddiwydiannau mwyngloddio a haearn a'r safleoedd diwydiannol trwm cysylltiedig wedi cael effaith fawr ar dirwedd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lleolwyd pyllau glo ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda deugain o byllau glo yng Nghwm Rhymni Uchaf yn unig erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r diwydiannau hyn wedi cyfrannu at etifeddiaeth iechyd gwael yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn diwedd yr 20fed Ganrif, yn dilyn cau'r holl byllau glo, cafodd llawer o weddillion y diwydiannau hynny eu hadennill neu eu symud a'u tirlunio i ddileu'r dystiolaeth weledol o orffennol diwydiannol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol hon o'r gorffennol yn dangos pwysigrwydd cynnal a gwella treftadaeth naturiol y Fwrdeistref Sirol, er mwyn gwella ansawdd bywyd a chreu amgylchedd iachach i bobl leol. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod llawer o'r safleoedd diffaith a halogedig sy'n weddill yn cynnwys tirweddau ecolegol pwysicaf y Fwrdeistref Sirol.

Mae glasu cymoedd De Cymru wedi bod yn drawsnewidiol – lle safai pennau pyllau glo a gweithfeydd mwyngloddio ar un adeg, mae parciau gwledig a choedwigaeth bellach yn cynnig amgylchedd gwyrdd ac iach sy'n denu miloedd o drigolion a thwristiaid bob blwyddyn. Mae'r dirwedd yn cael ei chynnal, ei gwarchod a'i gwella gan ffermwyr, mentrau a grwpiau,

gan gefnogi systemau ecolegol cysylltiedig, bioamrywiaeth gyfoethog, lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd a darparu'r bwyd ar ein platiau.

Mae'r amgylchedd byw naturiol yn arbennig yn helpu i godi llesiant meddwl pobl, yn ogystal â darparu campfa werdd am ddim i wella iechyd corfforol pobl. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynyddu hyd oes iach, lleihau nifer yr achosion o glefydau cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, Diabetes math 2 ac osteoporosis.

Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn hyrwyddo tirwedd eiconig a phobl Cymoedd De Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol i gymunedau lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfan yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd <sup>40</sup>.

*Ffigur 5: Merlen y Sultan, Parc Penallta*

Wedi'i naddu o hen domen lo, mae **Parc Penallta** yn adnabyddus fel y 'lle gyda'r ceffyl'. Fel un o'r cerfluniau pridd ffigurol mwyaf yn y wlad, mae 'Sultan Merlyn y Pwll' yn denu ymwelwyr o bell sy'n dod i'w weld a'i edmygu. Gall ymwelwyr ddringo i Arsyllfa High Point a gweld golygfeydd godidog ar draws cymoedd De Cymru. Mae'n anodd dychmygu bod y parc gwledig hardd, tawel ac amrywiol hwn yn domen lo ddu dim ond 30 mlynedd yn ôl.

Gyda'i gymysgedd o goetiroedd, pyllau a glaswelltiroedd mae Parc Penallta yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Ceir sawl rhywogaeth o degeirianau ar ddechrau'r haf, sawl math o weision y neidr a mursennod, ac erwau o ddolydd blodeuog sy'n gyforiog o ieir bach yr haf, gwenyn a thrychfilod eraill drwy'r haf. Gellir gweld heidiau o beneurnod yn bwydo ar gonau gwern a phennau hadau trwy gydol yr hydref ac mae siawns dda o weld cnocell werdd a choch y berllan ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Yn y

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

gaeaf, mae heidiau o ddrudwy yn disgyn i glwydo yn y gwelyau corsiog o amgylch **Cors Nelson**. Mae ardal bywyd gwyllt **Cors Penallta** yn enghraifft fechan o borfa rhostir, sy'n gyfoethog o ran blodau gwyllt a phryfetach (mae porfeydd rhostir yn gynefin cymysg sy'n cynnwys glaswellt y gweunydd a phorfeydd brwyn ac sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau. Mae arferion ffermio newidiol wedi effeithio'n ddrwg ar y math hwn o gynefin ac mae porfeydd rhostir yn ne Cymru yn rhan sylweddol o adnodd y byd).

Mae Parc Penallta yn un o'r tair ardal ym Mwrdeistref Sirol Caerffili sy'n un o 12 'Pyrth Darganfod' Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Maent yn fannau sy'n cynnig mynediad i'r dirwedd a'r dreftadaeth sy'n rhan o stori'r cymoedd ac yn lleoedd lle gall pobl fynd allan, cael hwyl, archwilio'r dirwedd a darganfod mwy am natur.

Yn gymaint o barc gwledig ag ydyw'n barc trefol, mae **Parc Nelson Wern** yn cyfuno cyfleusterau'r ddau mewn man gwyrdd cyhoeddus unigryw a hyfryd. Yn wreiddiol yn rhan o chwarel gerrig gyda seidins rheilffordd, dechreuodd y gwaith yn 2000 o ddatblygu parc newydd ar gyfer Nelson. Bellach mae rhywbeth yma at ddant pob oedran wrth i'r man gwyrdd hwn ennill ei le fel rhan werthfawr o'r gymuned leol.

Ar gyfer plant iau mae maes chwarae plant deniadol sydd wedi'i ddylunio'n dda ac mae'r amffitheatr yn edrych drosto. Gall plant hŷn fwrw eu hegri ar y trac BMX a'r rampiau sglefrio, tra bod y lloches ieuencid yn denu pobl ifanc o'r gymuned leol. Yn olaf mae cae pêl-droed, cartref i Nelson Cavaliers.

*Ffigur 6: Parc Nelson Wern*

Rheolir 'Y Wern' gyda natur mewn golwg. Mae'r goedwig wedi'i dynodi'n Safle o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN) ac mae'n gyforiog o fywyd gwyllt. Ceir dolydd blodau gwyllt a llwybr pren drwy'r coed gwlyb, gyda rhywogaethau di-rif fel tegeirianau, gweision y neidr, gloÿnnod byw ac adar.

Mae **Parc Ystrad Mynach** yn ymestyn dros tua 11 hectar o fannau gwyrdd agored gyda chaeau rygbi a pêl-droed, cyrtiau tenis, lawnt fowlio a maes chwarae i blant, i gyd wedi'u gosod ymhlith coed parcdir gwych. Wedi'i osod yn erbyn cefndir o goetir brodorol a dolydd blodau gwyllt, mae wedi'i gydnabod am reolaeth o ansawdd uchel, gan ennill Gwobr y Faner Werdd. O fewn y parc mae tiffurf rhewlifol anarferol o'r enw drymlin, sy'n dyddio yn ôl i'r Oes yr Iâ diwethaf.

Tirwedd ucheldirol wedi'i rhannu rhwng bwrdeistrefi sirol Merthyr Tudful a Chaerffili yw **Comin Gelli-gaer a Merthyr**. Mae'n cynnwys cribau Cefn Merthyr, Cefn Gelli-gaer, Cefn y Brithdir ac ardal i'r gogledd o ffordd Blaenau'r Cymoedd.

Mae'r Comin yn dirwedd fyw sy'n llawn hanes. Mae wedi'i ddynodi'n Dirwedd Hanesyddol gan Cadw oherwydd tystiolaeth o ddefnydd tir parhaus a gweithgaredd o'r cyfnod cynhanes hyd at y gorffennol diweddar. Mae'n dirwedd sy'n cysylltu'r cymunedau sy'n byw o'i chwmpas ac mae'n ysgyfaint gwyrdd hanfodol i'r cymoedd. Ar 3,000ha mae'r ehangder mawr hwn o dir yn chwarae ei ran yn y cylchoedd dŵr a charbon, sy'n llunio ac yn cynnal ein bywydau bob dydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Er bod y Comin wedi'i wreiddio mewn canrifoedd o hanes, mae'r un mor berthnasol i lawer o heriau'r 21ain Ganrif – cynaliadwyedd economaidd gwledig, ansawdd a diogelwch bwyd, llesiant corfforol a meddyliol, rheoli llifogydd, bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd.

Yn 2021, mewn partneriaeth a gefnogir gan y Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (RhGC) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, cynhaliwyd cynllun peilot 'Presgripsiwn Natur' newydd, a fydd yn darparu ffordd ychwanegol ymlaen ar gyfer cefnogi cymunedau iechyd a llesiant drwy gysylltu trigolion â gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch.

## 7 Llesiant diwylliannol

Mae diwylliant yn eang ac yn hollgynhwysol, yn cwmpasu credoau, arferion, nodweddion a hunaniaeth a rennir ac wedi'i ddiffinio gan bopeth gan gynnwys iaith, traddodiad, treftadaeth, normau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn dawns, cerddoriaeth a'r celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Mae diwylliant hefyd yn cael ei ddylanwadu gan bobl yn symud i ardal a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol, gan arwain at dwf yn niwylliant yr ardal.

Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn cael ei weld fel rhan fawr o ddiwylliant Cymru gan lawer o bobl. Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o leiaf yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn amrywio o 16.8% yn Hengoed 1 i 29.9% yn Sant Catwg 4. Dim ond pump o'r 15 ACEHI yng Ngorllewin Canol y Cymoedd oedd â ffigur islaw cyfartaledd y Fwrdeistref Sirol (22.2%) ac mae'r ffigur ym mhob ACEHI yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (37.8%)<sup>41</sup>.

Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o allu siarad Cymraeg, gan ddangos dylanwad addysg Gymraeg yn yr ardal.

<b>Atyniadau allweddol</b>	Maenordy Tuduraidd ger pentref Nelson yw <b>Llancaeath Fawr, a leolir ychydig i'r gogledd o safle hen Lofa Llancaeath</b> . Adeiladwyd y tŷ lled-gaerog ar safle strwythur canoloesol cynharach, naill ai ar ben yr annedd flaenorol neu o bosibl wedi'i ymgorffori ym mhen dwyreiniol yr adeilad hwnnw. Mae'n adeilad rhestredig Gradd I ac mae bellach yn fwyaf adnabyddus fel cartref y Cyrnol Edward Prichard (a fu farw yn 1655), a groesawodd ymweliad gan y Brenin Siarl I o Loegr yn 1645. Ystyrir y Faenor yn un o'r tai bonedd pwysicaf sydd wedi goroesi o'r 16 <sup>eg</sup> a'r 17 <sup>eg</sup> ganrif. Mae bellach ar agor i ymwelwyr fel amgueddfa hanes byw.
----------------------------	---

Lleolir **Caer Rufeinig Gelli-gaer** ar ben y bryn rhwng Afonydd Taf a Rhymni. Roedd yn cynnig golygfa eang o gefn gwlad, a fyddai wedi bod yn goediog iawn yn y cyfnod Rhufeinig. Cafodd y Gaer ei chloddio gyntaf tua diwedd y 19<sup>eg</sup> ganrif. Mae crochenwaith yn awgrymu dyddiad adeiladu cynnar ar gyfer y gaer bren Rufeinig wreiddiol yng Ngelli-gaer, a chafodd ei hailosod â cherrig tua throad yr ail ganrif, ar yr un pryd yr adeiladwyd baddondy o fewn anecs a oedd ynghlwm wrth amddiffynfeydd de-ddwyreiniol y gaer. Mae crochenwaith Antonine dyddiedig c.170AD yn cadarnhau parhad gweithredol y safle ymlaen i'r adeg honno.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ddigon ffodus i feddu nifer fawr o sefydliadau celfyddydol cymunedol sy'n hanfodol i godi proffil y celfyddydau, denu ymwelwyr ac incwm ychwanegol i'r Fwrdeistref Sirol a darparu elfen gymdeithasol hanfodol i gymunedau lleol trwy gyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau neu berfformio. Mae bron i 100 o grwpiau celfyddydol yn cyfarfod i ymarfer, datblygu, gwneud ac arddangos eu gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae yna hefyd nifer sylweddol o weithgareddau celfyddydol cymunedol sy'n mynd o dan y radar, megis prosiectau untro mewn ysgolion, clybiau ieuencid, grwpiau pobl hŷn, cynlluniau haf, addysg oedolion a chanolfannau cymunedol.

*Celfyddydau Gweledol* - mae gan y celfyddydau gweledol bron i 20 o grwpiau yn y Fwrdeistref Sirol sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, cerflunwaith, paentio, ffilm, gwneud printiadau a chrefftau.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

*Celf gyhoeddus* - mae gan lawer o drefi a phentrefi yn y Fwrdeistref Sirol ddarnau dychmygus o waith celf cyhoeddus, gan gynnwys cerfluniau, mosaigau a murluniau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gydag ysgolion lleol, cymunedau, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu a chynhyrchu gwaith celf sy'n cyfoethogi ac yn adlewyrchu hanes a diwylliant cymunedau lleol.

Mae enghreifftiau o gelfyddyd gyhoeddus yng Ngorllewin Canol y Cymoedd yn cynnwys yr 'Olwyn Dramiau' ym Maes-y-cwmwr, nifer o ddarnau o gelf gyhoeddus ym Mharc Penallta gan gynnwys 'Sultan Merlyn y Pwll', Arsyllfa High Point 'Breaking the Mold' a 'Coal Cutters Dream', a Sgwâr Siloh yn Ystrad Mynach.

*Ffigur 7: Olwyn Dramiau, Maes-y-cwmwr*

Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o fuddsoddiad wedi canolbwyntio ar waith celf cyhoeddus yn y Fwrdeistref Sirol, gyda thua £1.7 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o'r fath. Mae cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn wedi dod oddi wrth y Cyngor, ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, gan gynnwys arian Ewropeaidd.

Mae cynnwys y gymuned leol yn arwyddocâd eu treftadaeth leol yn bwysig er mwyn sicrhau ymdeimlad o le a chynyddu balchder a llesiant cymunedol.

Mae Gorllewin Canolbarth y Cymoedd yn gartref i ystod eang o glybiau a chymdeithasau, gan gynnwys sgowntiaid a geidiaid, eglwysi a chapeli, bandiau jazz, grwpiau mam a phlentyn, canolfannau ieuenctid, cymdeithasau hanesyddol, corau, clybiau bechgyn a merched, grwpiau rhandir a grwpiau pobl hŷn.

Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol fod yn ffordd dda o ddod â phob rhan o'r gymuned ynghyd a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig ers dechrau'r pandemig Covid-19, ac er bod cyfarfod ag eraill wedi bod yn anodd am gyfnod sylweddol o

amser, mae'r clymau sydd wedi'u creu o fewn ein cymunedau wedi golygu bod unigolion bregus wedi cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd, i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac i gael hwyl mewn lleoliad anffurfiol. Heb i wirfoddolwyr roi o'u hamser er budd eu cymunedau lleol, ni fyddai'r un o'r clybiau a chymdeithasau a restrir uchod yn gallu bodoli.

Mae'r eglwysi a chapeli niferus yng Ngorllewin Canol y Cymoedd hefyd yn gartref i ymdrechion gwirfoddoli, yn enwedig darparu clybiau cinio a dosbarthu bwyd i'r rhai mewn angen. Mae nifer o fanciau bwyd yng Ngorllewin Canol y Cymoedd sy'n darparu bwyd rhad iawn neu am ddim i'r rhai mewn angen neu ar incwm isel – mae'r rhain yn cynnwys Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr yn Nelson, Eglwys y Drindod Sanctaidd yn Ystrad Mynach a'r Ganolfan Ieuenctid yng Nghefn Hengoed.

Mae manteision meddyliol a chorfforol ymarfer corff wedi'u dogfennu'n helaeth. Trwy waith caled aelodau'r gymuned, mae llawer o glybiau a thimau chwaraeon yng Ngorllewin Canol y Cymoedd gan gynnwys pêl-droed, rygbi, criced, bowlio, pêl-fasged a phêl-rwyd. Os yw cenedlaethau'r dyfodol am wireddu'r manteision iechyd o fod yn gorfforol weithgar yna mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyfranogiad, yn enwedig ymhlith merched ifanc, sydd fel arfer yn rhoi'r gorau i weithgareddau chwaraeon yn eu harddegau. Gall ystod amrywiol o brofiadau plentyndod helpu i ennyn diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

Yn bennaf, mae tirwedd naturiol Gorllewin Canol y Cymoedd wedi'i harosod gan nodweddion sy'n ymwneud â'r newid diwydiannol mawr a ddigwyddodd yn ardal De Cymru ar ddiwedd y 18<sup>fed</sup> ganrif a dechrau'r 19<sup>eg</sup> ganrif. Ceir nifer o enghreifftiau o dreftadaeth ddiwydiannol gynlluniedig, ac mae'r rhain yn darparu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yr ardal,

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

sy'n cael ei chynabod fwyfwy fel nodwedd unigryw'r Fwrdeistref Sirol a Chymoedd De Cymru yn ehangach.

Mater allweddol o ran treftadaeth ddiwydiannol yr ardal yw ei diogelu ac, yn bwysicach fyth, cael ailddefnydd buddiol o'i hadeiladau. Bydd dod â'r adeiladau hyn yn ôl i ddefnydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cadw.

Yng Ngorllewin Canol y Cymoedd mae cyfanswm o 38 o **Adeiladau Rhestredig** – mae'r term hwn yn cyfeirio at adeilad neu adeiledd arall sydd wedi'i ddynodi'n swyddogol fel un ag arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig:

- Hengoed – 2 x Gradd II ac 1 x Gradd II\* (Traphont Hengoed/Maes-y-cwmwr)
- Maes-y-cwmwr – 3 x Gradd II\* - (Traphont Hengoed/Maes-y-cwmwr, Eglwys Ddiwygiedig Unedig Tabor a'r Felin Wlân)
- Nelson – 6 x Gradd II ac 1 x Gradd I (Maenordy Llancaeath Fawr)
- Sant Catwg – 9 x Gradd II
- Ystrad Mynach – 12 x Gradd II a 4 x Gradd II\* (Baddondy Glofa Penallta, Neuadd Peiriannau Glo Penallta a Thŷ'r Fan, Pwll Glo Penallta Rhif 1 a Rhif 2 ffrâm pen)

*Ffigur 8: Neuadd Peiriannau Glo Penallta a Thŷ'r Fan, Ystrad Mynach*

Mae saith **Heneb Gofrestredig** yng Ngorllewin Canol y Cymoedd – mae'r rhain yn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol gydag amddiffyniad cyfreithiol penodol rhag difrod neu ddatblygiad. Mae pedwar yng Ngelli-gaer, dau ym Maes-y-cwmwr ac un yn Nelson.

*Ffigur 9: Safle Rhufeinig Gelli-gaer*

Mae tair **Ardal Gadwraeth** o fewn Gorllewin Canol y Cymoedd – Gelli-gaer, Hengoed/Maes-y-cwmwr a Thredomen (Ystrad Mynach). Mae'r term Ardal Gadwraeth bron bob amser yn berthnasol i ardal (trefol neu ganol pentref fel arfer) sydd o ddi-ddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, yr ystyrir bod ei chymeriad yn haeddu cael ei chadw neu ei gwella.

### 8 Yr hyn y mae ein trigolion wedi ei ddweud wrthym

Mae barn cymunedau ar sut y defnyddir adnoddau i ddiwallu eu hanghenion yn hanfodol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu darparu o fewn ac ochr yn ochr â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae pobl yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses o asesu llesiant ein hardaloedd cymunedol, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Gwent, hyd at osod yr amcanion a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Er mwyn casglu safbwyntiau cymunedol i gefnogi'r broses Asesu datblygwyd proses ymwneud cyson gan grŵp o weithwyr proffesiynol ymgysylltu a chyfathrebu o bob rhan o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Oherwydd yr anawsterau amlwg o ran gallu ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19, arolwg ar-lein oedd y prif ddull o ymgysylltu. Roedd copïau papur hefyd ar gael mewn mannau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a meddygfeydd. Yn ogystal, trefnwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer pob un o'r pum ardal gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan alluogi pobl i gyfrannu eu barn trwy drafodaethau grŵp. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r arolwg a chafodd gweithdai a grwpiau rhanddeiliaid eu rhestru i annog cymunedau a grwpiau i gymryd rhan.

Rydym wedi gallu dadansoddi barn trigolion o fewn yr ardaloedd cymunedol trwy god post a dadansoddiadau eraill, fel y gellir deall gwahanol ganfyddiadau o fewn ardal a'u cymharu â'r data yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn.

Yng Ngorllewin Canol y Cymoedd, roedd ymdeimlad o ysbryd cymunedol yn amlwg iawn, lle mae cymdogion yn gyfeillgar ac yn gofalu am ei gilydd. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr yn teimlo'n hapus eu bod yn byw yn agos at fannau gwyrdd eang, agored, glân a phrydferth gydag amwynderau lleol rhesymol o fewn pellter cerdded. Dywedwyd hefyd bod mannau gwyrdd yn un o'r agweddau mwyaf gwerthfawr ar eu cymuned ac y dylid ei gynnal

fel bod pobl yn cael cyfle i fwynhau'r mannau gwyrdd sydd ar gael, pryd bynnag y dymunant.

Roedd y farn yn rhanedig ynghylch a oedd ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel ai peidio, gyda'r rhai mewn ardaloedd llai poblog yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, tra byddai eraill yn dewis peidio mentro allan yn y nos.

Roedd mynediad at gyfleusterau iechyd yn broblem i nifer o ymatebwyr, gan eu bod yn teimlo bod y system cludiant cyhoeddus yn annigonol. Dywedodd ymatebwyr fod cael mynediad at gludiant yn bwysig iawn i'w cymuned. Er bod rhai ymatebwyr wedi canmol ansawdd y cludiant sy'n cael ei ddarparu i'w hardal leol, pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella eu cymuned, dywedodd ymatebwyr eraill wrthym yr hoffent weld cludiant cyhoeddus yn dod yn fwy rheolaidd ar draws eu hardal leol, yn enwedig gyda'r nos.

Roedd cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig i bobl iau, hefyd yn peri pryder, er bod y symudiad diweddar i weithio o gartref yn golygu nad oedd mwy o bobl eto'n teimlo effaith wirioneddol dod o hyd i waith ymhellach i ffwrdd, mewn lleoliadau fel Caerdydd er enghraifft.

Teimlai llawer o ymatebwyr y gellid gwella rhai cyfleusterau (gan gynnwys hamdden), er enghraifft, datblygu mannau chwarae i blant iau a chynyddu gweithgareddau a chlybiau i bobl ifanc. Roedd llawer hefyd yn meddwl bod lle i annog pobl i wirfoddoli yn eu cymunedau, gan gymryd rhan fwy gweithredol yn gwneud eu lle yn rhywle gwell i fyw ynddo.

Roedd diogelwch ar y ffyrdd yn broblem i rai ymatebwyr, ac awgrymwyd y dylid cymryd camau i leihau damweiniau traffig a thagfeydd. Roedd cadw'r strydoedd a chymdogaethau lleol yn lân ac yn rhydd o sbwriel hefyd yn flaenoriaeth. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i wneud yn siŵr bod darpariaeth briodol ar gyfer pobl hŷn, a chymorth yn cael ei roi i sicrhau eu bod yn gallu parhau i fod yn gorfforol weithgar ac yn annibynnol, a byw gartref cyhyd â phosibl.

---

## Asesiad Llesiant Lleol Gorllewin Canol y Cymoedd

---

### Cyfeiriadau

---

- <sup>1</sup>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 , Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>2</sup>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>3</sup> Cofrestr Treth y Cyngor CBS Caerffili, Rhagfyr 2021
- <sup>4</sup>Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>5</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>6</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>7</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>8</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>9</sup> Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>10</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>11</sup>Amcanestyniadau Poblogaeth Seiliedig ar Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru 2018, Llywodraeth Cymru
- <sup>12</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>13</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS204EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>14</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS201EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>15</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS209EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>16</sup><https://www.zap-map.com/live/>
- <sup>17</sup>MALIC 2019 Data Dangosydd Parth Mynediad i Wasanaethau, StatsCymru
- <sup>18</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>19</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>20</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru

- <sup>21</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>22</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>23</sup>Data Dangosyddion Parth Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>24</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>25</sup>Nifer y marwolaethau a chyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran Ewropeaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn seiliedig ar ddyddiad cofrestru, cyfartaledd 3 blynedd, 2017-19, Mapiau Iechyd Cymru
- <sup>26</sup>Data Dangosyddion Parth Iechyd MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>27</sup>Disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd i wrywod/benywod ar enedigaeth erbyn Wardiau Cyfrifiad 2011 2009 i 2013, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>28</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS301EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>29</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>30</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>31</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>32</sup>Data Dangosyddion Parth Tai MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>33</sup>Prisiau tai canolrifol fesul ward: Set Ddata HPSSA 37, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>34</sup>Cyflog Crynswth Gweithwyr Llawn Amser - Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021, Nomis
- <sup>35</sup>Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>36</sup>Data Dangosyddion Parth Addysg MALIC 2019, StatsCymru
- <sup>37</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS501EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>38</sup> Tabl Cyfrifiad 2011 KS605EW, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- <sup>39</sup>[Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)
- <sup>40</sup><https://valleysregionalpark.wales/>
- <sup>41</sup>Tabl Cyfrifiad 2011 KS207WA, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol